**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Ysgolion

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 11 Chwefror 2019 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A M Day | S J Gallagher | L S Gibbard |
| D W Helliwell | L James | M A Langstone |
| | L J Tyler-Lloyd | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | | |

**Cynychwyr eraill**

| | |
|---|---|
| J A Raynor | Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Mark Sheridan<br>Brian Roles | Pennaeth y Gwasanaeth Dysgwyr DiamddiffynPennaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): C Anderson, M Durke, F M Gordon, B Hopkins, S M Jones, H M Morris a/ac M Sykes

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Cyhoeddodd y Cynghorwyr Louise Gibbard, Steven Gallagher a David Helliwell gysylltiad personol ag Eitem 4

2 **Nodiadau a llythyrau cynullyddion**

Fe'u derbyniwyd

3 **Craffu ar y gyllideb flynyddol: am ei bod yn ymwneud â materion br addysg**

Cyfarfu'r panel â'r Cyng. Jennifer Raynor, Mark Sheridan a Brian Roles er mwyn trafod y Gyllideb Flynyddol fel y mae'n berthnasol i faterion addysg.

Amlygwyd y pwyntiau canlynol gan y panel a chânt eu trosglwyddo i'r Panel Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid, a fydd yn llunio ymateb ar gyfer cyfarfod y Cabinet ar 14 Chwefror.

- Roedd y panel yn falch o weld bod gan addysg 'flaenoriaeth gymharol' yn y gyllideb eto eleni.
- Roedd gan y panel bryderon ynghylch effaith peidio â thalu cost y cynnydd mewn pensiynau athrawon (ar hyn o bryd) gan Lywodraeth y DU. Mae'r panel am sicrhau bod y Cabinet yn gwneud popeth posib i sicrhau nad yw ysgolion dan anfantais oherwydd y swm sylweddol hwn.
- Roedd y panel yn falch o glywed bydd gwasanaeth cerdd ysgolion yn derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru eleni ac roedd yn awyddus i bwysleisio pwysigrwydd disgyblion yn cael mynediad at gerddoriaeth, ac yn dangos diddordeb ynddi.

Roedd y panel yn falch o glywed am y bwriad o wella eglurder a thryloywder cyllid grantiau a ddyrennir gan ERW ond mae'n awyddus i fonitro'r gwelliannau hyn wrth symud ymlaen.

4 **Cynllun Gwaith 2018 - 2019**

Fe'i derbyniwyd

5 **Er gwybodaeth**

Fe'i nodwyd

Daeth y cyfarfod i ben am 4.15 pm